Dweud eich Dweud

Pwy sy'n rhedeg yr Undeb Credyd?

Chi! Caiff banciau cydweithredol eu rhedeg gan eu haelodau ac ar gyfer eu haelodau. Un o'r prif egwyddorion yw democratiaeth – UN BLEIDLAIS I BAWB, waeth pa mor fawr yw eich dylanwad chi.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yr aelodau'n ethol Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Felly gallech chi ddod yn Gyfarwyddwr.

Yr oedran ieuengaf ar gyfer cael pleidleisio yw 16 neu 18, yn dibynnu ar bolisi eich Undeb Credyd chi.

Gall yr aelodau godi materion a chyflwyno cynigion i newid pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Yng Nghanada, mae Byrddau Pobl Ifanc yn gysylltiedig â'r prif Undeb Credyd.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Dweud eich Dweud

Bwrdd yr Undeb Credyd



CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!

Dweud eich Dweud

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Mae'r 5 i 10 o Gyfarwyddwyr gwirfoddol yn gweithredu fel stiwardiaid yr Undeb Credyd, gan wneud penderfyniadau am sut y bydd yn gweithredu ac yn tyfu. Mae'r cyfrifoldeb wedi'i rannu'n gyfartal.

Dyma eu prif gyfrifoldebau:

1. **Rheoli.** Datblygu cyfeiriad strategol yr Undeb Credyd a gwneud penderfyniadau strategol yn ôl y gyfraith ac arferion da'r Undeb Credyd. Sicrhau bod Cynllun Busnes ar waith a'i fod yn cael ei ddilyn.
2. **Pennu polisïau.** Penderfynu ar bolisïau er budd yr aelodau a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.
3. **Gwarchod arian a buddiannau'r aelodau.** Mae'n bwysig gosod safonau uchel o ran arferion da yn arbennig mewn perthynas ag arian.
4. **Sefydlu Camau Rheoli Mewnol.** Mae hyn yn hollbwysig er mwyn lleihau risg, atal anonestrwydd a gwarchod arian yr aelodau.
5. **Recriwtio aelodau newydd.** Dylen nhw bob amser ymdrechu i ddenu aelodau newydd a gwirfoddolwyr er mwyn i'r Undeb Credyd barhau a thyfu.
6. **Cefnogi staff a gwirfoddolwyr.** Darparu amgylchedd gwaith da a sicrhau bod anghenion yr aelodau'n cael eu bodloni.

Bydd gan y bwrdd Gadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd a rolau eraill.

Y Pwyllgor Credyd neu'r Panel Benthyciadau

Bydd y pwyllgor hwn yn rhoi benthyciadau'n unol â pholisïau'r Bwrdd. Bydd yn rhaid i'r pwyllgor roi adroddiadau ym mhob un o gyfarfodydd misol y Bwrdd. Bydd gan y Pwyllgor Gadeirydd ac Ysgrifennydd yn ogystal ag aelodau eraill.

Y Pwyllgor Goruchwylio (3 aelod)

Mae'r pwyllgor hwn yn rhyw fath o gorff gwarchod mewnol annibynnol. Dydy ei aelodau ddim yn rhan o'r Bwrdd, ond bydd cynrychiolydd ar ran y Pwyllgor Goruchwylio yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Rhaid i'r pwyllgor hwn gyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!